**COFNODION CYFARFOD ARFEROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 13 IONAWR 2025**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths

Gareth Davies

Troy Maclean

Morwenna Pugh

Mark Thomas

Peter Jones

David Meirion Jones

Geoffrey Jones

Sioned Graham-Cameron, Clerc

Ellen Pugh, Dirprwy Glerc

Llinos Alun (eitem 5)

Iwan Jones, Heddlu (ar Zoom) (eitem 4)

DRAFT

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Rory Francis a Dewi Prysor.

**2. Datgan Buddiannau**

Datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd David Meirion Jones, eitemau 8 a 9

Y Cynghorydd Geoffrey Jones, eitem 8

Y Cynghorydd Peter Jones, eitem 8

Y Cynghorydd Morwenna Pugh, eitem 17

**3. Materion y Cadeirydd**

Nid oedd gan y Cadeirydd unrhyw faterion i'w codi dan yr eitem hon.

**4. Adroddiad gan yr Heddlu**

Ymunodd Iwan Jones, Arolygydd yr Heddlu, â'r cyfarfod ar Zoom a rhoi adroddiad ar faterion a oedd yn achosi pryderon yn yr ardal, gan gynnwys cyffuriau. Pwysleisiodd bwysigrwydd cyfathrebu ac adrodd i'r Heddlu am unrhyw broblemau lleol, gan fod yn well gan bobl siarad gyda rhywun ar wahan i'r Heddlu weithiau. Cyn gorffen dywedodd ei fod eisiau clywed os oedd unrhyw bryderon am unrhyw beth. Diolchwyd iddo am fynychu'r cyfarfod.

**5. Plas Tan y Bwlch**

Ymunodd Llinos Alun â'r cyfarfod i roi diweddariad ar yr hyn a oedd yn digwydd yn yr ymgyrch i gadw Plas Tan y Bwlch ar agor a oedd wedi ei dynnu oddi ar y farchnad am gyfnod. Dywedodd yr hoffai gael cynrychiolydd o'r Cyngor Tref ar bwyllgor. Soniwyd am Gymunedoli

a chais ariannu am ddwy flynedd, ond roedd angen cael pobl at ei gilydd cyn gwneud y cais. Cynigiodd Y Cynghorydd mark Thomas bod cynghorydd/wyr yn mynd i gyfarfod cyn penderfynu yn union sut i gefnogi'r ymgyrch, ac eiliodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh a chytunodd pawb.

Adroddodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod ffens tir Garregfilltir wedi ei ddifrodi unwaith eto a chytunwyd bod y Cyngor Tref yn cysylltu gyda'r Heddlu i adrodd am y difrod.

**6. Cofnodion Cyngor Arferol 9 Rhagfyr 2024**

Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Gareth Davies eu bod yn gywir a chytunodd pawb.

**7. Ymgynghorwyd Cynlluniau Parcio**

Cytunwyd derbyn yr wybodaeth.

**8. Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Gorsaf Ynni Niwcliar Trawsfynydd**

Ar ôl datgan buddiannau, gadawodd y Cynghorwyr David Meirion Jones, Geoffrey Jones a Peter Jones y Siambr. Nid oedd gan y Cynghorwyr sylwadau penodol i'w gwneud ond gofynnwyd i'r Clercod holi os oedd gan y cwmni unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r rheilffordd.

**9. Llythyr Yes Cymru**

Ystyriwyd cynnwys llythyr Yes Cymru a chynigiodd Y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Geoffrey Jones y dylid ei gefnogi, a chytunodd pawb.

**10. Caffi'r Pafiliwn, Y Parc**

Trafodwyd y sefyllfa a chytunwyd y bydd angen cael archwiliad Rheoli Adeiladu i sicrhau bod y strwythur yn ddiogel ac os oedd angen gwneud gwaith ar yr adeilad. Dywedodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh efallai y gallai'r Cyngor redeg y Caffi a chytunwyd bod angen ymchwilio i hynny cyn penderfynu ar unrhyw beth pellach. Dywedodd y Clerc y byddai'n cysylltu gydag adran Rheoli Adeiladu Cyngor Gwynedd.

**11. Cynlluniau Maes Parcio'r Berllan**

Cyflwynwyd cynlluniau diwygiedig gan y pensaer a chytuodd pawb eu bod yn hapus gyda nhw ac i'r pensaer fynd ati i wneud Datganiad Amgylcheddol ar gyfer y cais Cynllunio.

**12. Problemau parcio Ysgol Maenofferen**

Adroddwyd bod y sefyllfa gyda cheir o amgylch yr Ysgol wedi mynd yn beryglus dros ben a bod angen gwneud rhywbeth. Roedd y ffaith bod yr Ysgol wedi rhwystro rhieni rhag mynd â cheir wedi gwaethygu'r broblem. Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Gareth Davies bod y Cyngor Tref yn ysgrifennu at yr Ysgol yn gofyn iddi ail-ystyried caniatau ceir a chytunodd pawb.

**Ymunodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis â'r cyfarfod ar Zoom am 7.39pm**

**13. Cinio Gŵyl Dewi 2025**

Ar ôl trafodaeth, cynigiodd Y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Mark Thomas y dylid gofyn i Seren a Phengwern am brisiau i gynnal y cinio eleni a chytunodd pawb.

DRAFT

**14.** **Llywodraethwr Ysgol**

Dywedodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis y byddai ef yn hapus i fod yn llywodraethwr a diolchwyd iddo.

**15.** **Cynrychiolydd y Cyngor Tref ar SSG Trawsfynydd**

Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh bod Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths yn cael ei enwebu a chytunodd pawb.

**16.** **Ymgynghoriad – 'Buy in GWY048 / 15877' – Mast 5G**

Cafwyd trafodaeth eang, gyda'r Cynghorydd Mark Thomas yn dweud ei fod gwbl yn erbyn, am resymau iechyd corfforol a meddwl yn deillio o bobl ifanc ar declynnau clyfar drwy'r amser, a'r Cynghorydd Peter Jones yn gryf o blaid ac nad oedd eisiau dal y Blaenau yn ôl. Mynegodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis bryderon ar ôl clywed cyflwyniad Ian Jarvis am beryglon iechyd, a dywedodd Y Cynghorydd Geoffrey Jones ei fod yn ddigon hapus i'r cais fynd rhagddo o fewn canllawiau, gan fod y dechnoleg yn gwella bywydau.

Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis bod y Cyngor Tref yn gwrthwynebu'r cais. Gofynnodd Y Cynghorydd Mark Thomas am bleidlais gofnodedig a chafwyd pleidlais fel a ganlyn:

**O blaid**

Y Cynghorwyr Mark Thomas, Dafydd Dafis, Gareth Davies a Troy Maclean

**Yn erbyn**

Y Cynghorwyr Geoffrey Jones, Peter Jones a David Meirion Jones.

Ymataliodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd Morwenna Pugh ac felly y penderfyniad oedd gwrthwynebu'r cais Cynllunio drwy fwyafrif.

**17.** **Cymhwyster ILCA**

Gadawodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh y Siambr. Adroddwyd bod y Dirprwy Glerc wedi cyflawni lefel gyntaf cyhwyster yr SLCC a chytunwyd ei bod yn symud ymlaen i'r lefel nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10pm

DRAFT